# PAPURAU BUSNES

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MAWRTH, 3 EBRILL 2001

## RHAN 2 - ADRAN H

**Dechreuodd y cyfarfod am 2pm**

**Croesawyd Eleanor Burnham i'r Cynulliad gan y Llywydd ac fe wnaeth yr Aelod newydd ddatganiad.**

**2.02pm**
**Cynigiodd y Trefnydd gynnig trefniadol i ddod â'r Cynigion heb Ddyddiad Trafod canlynol ymlaen:**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â rheol sefydlog 16.2 yn ethol Eleanor Burnham (Democrat Rhyddfrydol) i'w Bwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle Christine Humphreys (Democrat Rhyddfrydol).

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Eleanor Burnham (Democrat Rhyddfrydol) ar ei Bwyllgor Pwnc Addysg a Dysgu Gydol Oes yn lle Christine Humphreys (Democrat Rhyddfrydol).

**Cymerwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol**
O Blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 39
**Cymeradwywyd y cynnig trefniadol**

**Cymerwyd pleidlais ar y Cynigion heb Ddyddiad Trafod**
O Blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 40
**Cymeradwywyd y cynigion**

**2.04pm**
**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd 6 chwestiwn yn ôl

**2.45pm**
**Gwnaeth y Gweinidog Cyllid a Chymunedau ddatganiad ar Gynllun Bellwin**

**2.53pm**

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**2.59pm**
**Cymeradwyo Rheoliadau'r Premiwm Buchod Sugno 2001.**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog rhif 23.10 yn cymeradwyo drafft y Rheoliadau Premiwm Buchod Sugno 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2001.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
**Gwelliant 1 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**
Dileu "21 Mawrth 2001" ac yn ei le rhoi "27 Mawrth 2001".
**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**
O Blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Cymeradwywyd Gwelliant 1**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd:**
O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Cymeradwywyd y cynnig fel y'i diwygiwyd**

**3.00pm**
**Pwynt o Drefn**
**David Davies** ynghylch y protocol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol a defnyddio'r Neuadd

**Cymerodd y Dirprwy Lywydd y Gadair**

**3.03pm**
**Dadl ar Strategaethau Iechyd Meddwl**
**Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:**

- yn cydnabod pwysigrwydd iechyd meddwl da a gwasanaethau salwch meddwl o'r ansawdd uchaf;
- yn cadarnhau ei ymrwymiad i sicrhau bod datblygu gwasanaethau iechyd meddwl yn un o'i flaenoriaethau allweddol;
- yn cefnogi'r argymhellion eang y dylai fersiynau terfynol y Strategaethau "Plant a Phobl Ifanc yn eu Harddegau" a "Iechyd Meddwl i Oedolion" (a anfonwyd at Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac yr hysbyswyd Aelodau'r Cynulliad ohonynt ar 27 a 28 Gorffennaf 2000 ac sydd i'w gweld ar y Rhyngrwyd ar http://www.wales.gov.uk/subihealth/content/consultations/menhealth/mhcons_e.htm ) bwysleisio'r angen am ddull holistig o weithredu ar gyfer iechyd meddwl

- yn gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod y dogfennau terfynol yn cydnabod pwysigrwydd dull cytbwys o weithredu ar gyfer iechyd meddwl sy'n defnyddio sgiliau'r NHS, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol i hybu iechyd meddwl da a darparu gwasanaeth effeithiol i bobl sydd â salwch meddwl
- yn cefnogi'r bwriad i sefydlu grwp gweithredu, i roi'r strategaeth ar waith yn ymarferol, ac
- yn tynnu sylw at y rhan hanfodol y mae angen galluogi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, a'u cynhalwyr, i'w chwarae wrth ddatblygu'r strategaeth ac wrth ei gweithredu.

***Roedd y gwelliannau canlynol wedi'u cyflwyno:***

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
*Dileu ';' ac ychwanegu ar ddiwedd y pwynt bwled cyntaf:*

*'sy'n hygyrch yn lleol'*

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
*Dileu ';' ac ychwanegu ar ddiwedd yr ail bwynt bwled:*

'Ac yn galw ar y Llywodraeth Bartneriaeth Llafur/Democratiaid Rhyddfrydol i

1. gynyddu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael, gan gynnwys seicotherapi ffurfiol, sydd ar gael mewn gofal sylfaenol, a
2. blaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf yn y gwaith o ddatblygu adnoddau materol sy'n gysylltiedig â chyflwyno gwasanaethau iechyd meddwl.'

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Dileu'r trydydd pwynt bwled a rhoi'r canlynol yn ei le

- yn croesawu'r *Strategaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc yn eu Harddegau* ac yn ategu ei hargymhellion;

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
*Ychwanegu ar ddiwedd y trydydd pwynt bwled:*

'ac yn gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod y dogfennau terfynol yn pwysleisio'r ymrwymiad ar awdurdodau statudol i sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl plant, pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion yn hollol integredig'

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ar ôl y trydydd pwynt bwled, rhoi'r canlynol ar ffurf pwynt bwled newydd:

- yn nodi'r Strategaeth Iechyd Meddwl ddrafft i Oedolion ac yn galw ar Grwp Ymgynghorol y Strategaeth i gynnig unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i argymhellion y strategaeth yr ystyrir eu bod yn ddymunol yn sgil y broses ymgynghori; ac yn gwahodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ystyried unrhyw newidiadau a wnaed i'r Strategaeth Iechyd Meddwl i Oedolion yn ôl cyngor y Grwp Ymgynghorol;

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
*Ychwanegu ar ddiwedd y pedwerydd pwynt bwled:*

'ynghyd â dyrannu cyllid ychwanegol a phenodol i gyrff statudol a chyrff gwirfoddol at ddibenion iechyd meddwl.'

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Dileu'r pumed pwynt bwled, a rhoi'r canlynol yn ei le:

- yn cefnogi sefydlu Grwp Gweithredu'r Strategaeth Iechyd Meddwl i Oedolion a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr:

  - y sector gwirfoddol sy'n ymwneud â iechyd meddwl

  - defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl

  - cynhalwyr pobl sydd â salwch meddwl;

**Gwelliant 8 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
*Dileu '.' ac ychwanegu ar ddiwedd y chweched pwynt bwled:*

'ac yn gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod y dogfennau terfynol yn cynnwys argymhellion penodol i ddatblygu mynediad at wasanaethau iechyd meddwl drwy gyfrwng dewis iaith y defnyddiwr, a chynigion penodol i ddatblygu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ledled Cymru.'

**Gwelliant 9 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
*Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig ar ffurf pwynt bwled newydd:*

'yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddyrannu isafswm o £50m dros dair blynedd, yn benodol ar gyfer rhoi argymhellion y dogfennau strategol hyn ar waith'

**Gwelliant 10 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

*Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig ar ffurf pwynt bwled newydd:*

'yn galw ar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. i ymgymryd ag adolygiad i asesu’r angen am adnoddau dynol yn y proffesiynau iechyd meddwl
2. ac i ddatblygu strategaeth recriwtio a chadw yn benodol ar gyfer maes iechyd meddwl.'

**Cymerwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Cymeradwywyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd Gwelliant 2**

**Tynnwyd Gwelliant 3 yn ôl**

**Gwelliant 4**
O Blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd Gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O Blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd Gwelliant 7**

**Gwelliant 8**
O Blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 3; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd Gwelliant 8**

**Gwelliant 9**
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd Gwelliant 9**

**Gwelliant 10**

O Blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd Gwelliant 10**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**4.07pm**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru (Dadl a ohiriwyd o 20 Mawrth 2001)**
***Mae’r Cynulliad Cenedlaethol:***

- yn datgan ei gred bod polisi trafnidiaeth sydd wedi ei integreiddio’n llawn yn hanfodol bwysig i ddatblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru;
- yn gresynu at sefyllfa bresennol llawer o’n hisadeiledd trafnidiaeth;
- yn mynegi pryder ynghylch diffyg pwer y Cynulliad Cenedlaethol dros bolisi rheilffyrdd a thros yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (SRA);
- ac yn galw ar y Cabinet i:

1. Drafod ar frys gyda Llywodraeth y DU i gael cynrychiolaeth i Gymru ar yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol a phwerau a fydd yn galluogi’r Cynulliad Cenedlaethol i roi cyfarwyddiadau i’r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol.
2. Argymell i Lywodraeth y DU y dylai Railtrack ddod o dan reolaeth gyhoeddus.
3. Sefydlu Awdurdod Trafnidiaeth i Deithwyr yng Nghymru i gydlynu darpariaeth y gwasanaethau.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe) Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**
Dileu "datgan" yn llinell gyntaf y pwynt bwled cyntaf, a rhoi "ailadrodd" yn ei le.

**Gwelliant 2 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe) Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**
Ychwanegu ar ôl "Cymru" ar ddiwedd y pwynt bwled cyntaf:

"fel y nodir yn *Rhoi Cymru’n Gyntaf* a *gwellcymru.com*"

**Gwelliant 3 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe) Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**
Dileu’r ail bwynt bwled a rhoi’r canlynol yn ei le:

"yn gresynu at y tanfuddsoddi a fu yn yr isadeiledd trafnidiaeth gan lywodraethau Ceidwadol olynol o 1979-1997, ac yn croesawu’r cynnydd yn y cyllid a gyhoeddwyd gan y Cynulliad."

**Gwelliant 4 - David Davies (Mynwy);**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt bwled 2:

"ac yn gresynu at benderfyniad y Llywodraeth i ostwng y cyllid ar gyfer prosiectau adeiladu ffyrdd."

**Gwelliant 5 - David Davies (Mynwy);**
Ychwanegu fel pwynt bwled newydd 4:

"yn gresynu at y trethi uchel ar danwydd a delir gan yrwyr yng Nghymru."

**Gwelliant 6 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe) Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**
Ychwanegu cyn "Drafod" yn llinell gyntaf pwynt bwled (a):

"Yn cadarnhau nod y Llywodraeth Bartneriaeth i"

**Gwelliant 7 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe) Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt bwled (a):

"ar faterion sy'n ymwneud â Chymru"

**Gwelliant 8 - David Davies (Mynwy);**
Dileu pwynt (b) a rhoi'r canlynol yn ei le:

"cydnabod mai system reilffordd wedi'i phreifateiddio yw'r unig ffordd o sicrhau cyllid gan y sector preifat ar gyfer rheilffyrdd, ond yn credu bod angen awdurdod diogelwch newydd."

**Gwelliant 9 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe) Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**
Dileu pwynt bwled (b) a rhoi'r canlynol yn ei le:

"Hyrwyddo gyda Llywodraeth y DU fodd o gyflwyno isadeiledd rheilffyrdd diogel a modern, sydd wedi'i seilio ar lefelau uwch o reolaeth gyhoeddus"

**Gwelliant 10 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe) Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**
Dileu pwynt bwled (c) a rhoi'r canlynol yn ei le:

"Cydweithredu gyda Phwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth y Cynulliad wrth

archwilio'r achos o blaid sefydlu Awdurdod neu Awdurdodau Trafnidiaeth Teithwyr i Gymru, ynghyd â modelau eraill ar gyfer sicrhau trafnidiaeth integredig er mwyn cyd-drefnu darpariaeth gwasanaethau; gan wneud y cyflwyniadau priodol i Lywodraeth y DU lle bynnag y bo angen"

**Gwelliant 11 - David Davies (Mynwy);**
Ychwanegu fel pwynt (d) newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Rhoi mesurau ymarferol ar waith i gynorthwyo mathau gwahanol o drafnidiaeth gyhoeddus."

**Cymerwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 7; Cyfanswm 47
**Cymeradwywyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 20; Cyfanswm 46
**Cymeradwywyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 41; Ymatal 0; Yn erbyn 7; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 7; Ymatal 0; Yn erbyn 40; Cyfanswm 47
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 18; Ymatal 1; Yn erbyn 28; Cyfanswm 47
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O Blaid 27; Ymatal 1; Yn erbyn 20; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd Gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O Blaid 41; Ymatal 0; Yn erbyn 7; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd Gwelliant 7**

**Gwelliant 8**
O Blaid 9; Ymatal 0; Yn erbyn 38; Cyfanswm 47
**Gwrthodwyd Gwelliant 8**

**Gwelliant 9**
O Blaid 27; Ymatal 1; Yn erbyn 20; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd Gwelliant 9**

**Gwelliant 10**
O Blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd Gwelliant 10**

**Gwelliant 11**
O Blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 4; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd Gwelliant 11**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 41; Ymatal 0; Yn erbyn 7; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.37pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 9.05am ddydd Iau, 5 Ebrill 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**MAE’R NEGES A ATGYNHYRCHIR ISOD YN YR IAITH Y’I CYFLWYNWYD HI I’R CYNULLIAD**

**Derbyniwyd y ddeiseb ganlynol ar 27 Mawrth 2001 oddi wrth Ruth Ridge, Abertawe gyda 30,000 o lofnodion:**

***"Save our Sands against Sand Dredging in Gower"***

# DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

## DOFGENNAU A GYFLWYNWYD AR 29 MAWRTH 2001

Cynulliad Cenedlaethol Cymru Datagniad Gwariant 2001-02 Nodiadau Esboniadol (LD710)

Cynulliad enedlaethol Cymru Datganiad Gwariant 2001-02 (LD711)

Local Government Finance (Wales) Special Grant Report (No7) (Wales) 2000 (LD709) Dim copiau Cymraeg ar gael